Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Y Rhaglen Frechu MenACWY a'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau





## Dogfen friffio ar gyfer penaethiaid a staff ysgolion

Gwnewch yn siŵr bod gan bob aelod o staff yr ysgol sydd angen gwybod am y rhaglen fynediad at yr wybodaeth hon.

**Mae'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau yn amddiffyn rhag tri chlefyd difrifol – tetanws, difftheria a pholio**

**Mae'r brechlyn MenACWY yn amddiffyn rhag grwpiau meningococol A, C, W ac Y, sy'n gallu achosi llid yr ymennydd a sepsis**

## Cymhwysedd i gael y brechlyn MenACWY a'r brechlyn atgyfnerthu 3-mewn-1 i bobl ifanc yn eu harddegau

Mae'r brechlyn MenACWY a'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau yn cael eu cynnig **am ddim i bob unigolyn ifanc 13 i 14 oed** (blwyddyn ysgol 9), yn ogystal â disgyblion hŷn sydd wedi colli'r cyfle i gael y brechlynnau hyn o'r blaen.

Mae'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau yn cael ei roi fel mater o drefn ar yr un pryd â'r brechlyn MenACWY fel rhan o'r rhaglen imiwneiddio genedlaethol. Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael cynnig y ddau frechlyn gyda'i gilydd yn yr ysgol. Fodd bynnag, bydd pobl ifanc sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael cynnig y ddau frechlyn gan eu practis meddygon teulu pan fyddant tua'r un oedran.

## Tri rheswm dros gael y brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc a'r brechlyn MenACWY

1. Mae'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau yn cryfhau amddiffyniad ac yn rhoi amddiffyniad tymor hwy yn erbyn tetanws, difftheria a pholio wrth iddynt dyfu'n oedolion.

2. Er bod clefyd meningococol yn brin, mae'n ddifrifol iawn ac yn gofyn am driniaeth frys yn yr ysbyty. Gall hyd yn oed fod yn angheuol. Mae pawb mewn perygl o glefyd meningococol, ond **pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc** yw'r **ail grŵp sydd fwyaf mewn perygl, a nhw sydd fwyaf tebygol o gario'r germ meningococol.**

3. Mae'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a'r brechlyn MenACWY yn **ddiogel, yn hynod effeithiol ac yn hawdd** i'w cael.

# Ynglŷn â'r Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a'r brechlyn MenACWY

## Y Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau (cyfeirir ato weithiau fel Td/IPV):

### T: tetanws

Mae tetanws yn afiechyd sy'n effeithio ar y system nerfol. Gall achosi sbasmau yn y cyhyrau a phroblemau anadlu, a gall ladd. Mae tetanws yn cael ei achosi pan fydd bacteria a geir mewn pridd a thail yn mynd i mewn i'r corff trwy glwyfau agored.

### d: difftheria

Mae difftheria yn haint bacteriol heintus iawn sydd fel arfer yn dechrau gyda dolur gwddf. Mae'n gallu achosi problemau anadlu'n gyflym. Gall niweidio'r galon a'r system nerfol ac, mewn achosion difrifol, mae'n gallu lladd.

### IPV: brechlyn polio wedi'i anactifadu

Mae polio (a elwir hefyd yn poliomyelitis) yn feirws sy'n ymosod ar y system nerfol ac yn gallu achosi parlys parhaol yn y cyhyrau. Gall polio ladd os yw'n effeithio ar gyhyrau'r frest neu'r ymennydd.

**Ar un adeg roedd polio yn gyffredin yn y DU a ledled y byd. Mae'n brin erbyn hyn o ganlyniad i lwyddiant y rhaglen frechu.**

Mae'r brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau yn **hynod effeithiol** wrth gryfhau'r (atgyfnerthu) amddiffyniad a geir gan imiwneiddiadau sy'n cael eu rhoi i blant pan maent yn iau.

Mae'r brechlyn atgyfnerthu'n cwblhau cwrs pum dos sy'n anelu at roi amddiffyniad hirdymor yn erbyn tetanws, difftheria, a pholio wrth i bobl ifanc dyfu'n oedolion:

- rhoddir y tri dos cyntaf i fabanod, yn 8 wythnos, yn 12 wythnos ac yn 16 wythnos oed
- rhoddir y pedwerydd dos i blant pan fyddant yn 3 blwydd a 4 mis oed (yn achos plant a anwyd cyn 1 Gorffennaf 2025)
- rhoddir y pumed dos i bobl ifanc yn eu harddegau pan fyddant rhwng 13 a 14 oed (blwyddyn ysgol 9)


Mae'r Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn **frechlyn diogel iawn.** Mae'n cael ei roi trwy bigiad yn rhan uchaf y fraich.

Mae rhestr lawn o gynhwysion y brechlyn a'r sgil-effeithiau posibl ar gael yn **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). I gael gwybodaeth am y brechlyn 3-mewn-1, rhowch 'Revaxis' yn y blwch chwilio.

Mae rhagor o wybodaeth am y Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau ar gael o **icc.gig.cymru/brechlyn3mewn1**

Ar y dudalen we hon, gallwch wylio'r animeiddiad a darllen y comic "Beth yw'r brechlyn atgyfnerthu 3-mewn-1 i bobl ifanc?".




## Y Brechlyn MenACWY

Mae'r clefyd meningococol yn cael ei achosi gan sawl grŵp o facteria meningococol, a'r rhai mwyaf cyffredin yw B, C, W ac Y. Gall bacteria meningococol achosi llid yr ymennydd (llid yn leinin yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn) a sepsis (ymateb gan y corff cyfan i haint sy'n achosi llid eang a difrod i organau). Mae'r un bacteria sy'n achosi'r afiechydon difrifol hyn yn cael eu cario'n gyffredin yng nghefn y trwyn a'r gwddf, yn enwedig mewn pobl ifanc hŷn ac oedolion ifanc, heb symptomau.

Er bod y clefyd menigococol yn brin, mae'n un difrifol iawn sy'n gofyn am driniaeth frys yn yr ysbyty. Gall arwain at anableddau sy'n newid bywydau fel trychiadau, colli clyw, niwed i'r ymennydd a chreithiau. Os na chaiff ei ddiagnosio'n gynnar, gall hyd yn oed fod yn angheuol.

Cyflwynwyd brechu yn erbyn grŵp meningococol C (MenC) i'r amserlen frechu reolaidd yng Nghymru ym 1999.

Ers mis Awst 2015, mae pobl ifanc yn eu harddegau wedi cael cynnig y brechlyn MenACWY i wella eu hamddiffyniad yn erbyn clefyd meningococol. Mae'r brechlyn hwn yn amddiffyn rhag pedwar grŵp o facteria meningococol, sef A, C, W ac Y. Mae'r brechlyn wedi arwain at ostyngiad mawr mewn achosion o glefyd MenC ym mhob grŵp oedran.

O ganlyniad i leihau achosion o glefyd MenC yn llwyddiannus ac argaeledd brechlynnau priodol, rhoddwyd y gorau i gynnig dos o'r brechlyn MenC i fabanod yn flwydd oed ym mis Gorffennaf 2025. **Felly, y brechlyn MenACWY sy'n cael ei roi i bobl ifanc pan fyddant rhwng 13 a 14 oed yw'r unig frechlyn sy'n cynnwys MenC sy'n rhan o'r amserlen imiwneiddio reolaidd ar gyfer Cymru bellach. Mae sicrhau bod y nifer o bobl ifanc sy'n cael eu brechu yn uchel yn hanfodol er mwyn atal brigiadau o achosion a salwch yn y dyfodol.**


Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r bacteria meningococol a chael clefyd meningococol, ac felly mae angen iddyn nhw gael eu brechu er mwyn amddiffyn eu hunain. Mae brechu hefyd yn lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn cario'r bacteria ac felly'n amddiffyn pobl eraill o'u cwmpas. Bydd angen y brechlyn hwn arnyn nhw hyd yn oed os ydyn nhw wedi cael y brechlyn MenC o'r blaen.

Fel arfer rhoddir y brechiad MenACWY fel pigiad ym mhen uchaf y fraich.

Mae rhagor o wybodaeth am y brechlyn MenACWY ar gael yn **icc.gig.cymru/brechlynMenACWY**

Ar y dudalen we hon, gallwch wylio'r animeiddiad a darllen y comic "Beth yw'r brechlyn MenACWY?".




Mae rhestr lawn o gynhwysion y brechlyn a'r sgil-effeithiau posibl ar gael yn **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). I gael gwybodaeth am frechlynnau MenACWY rhowch 'Men A, C, W, Y'* yn y blwch chwilio.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau llid yr ymennydd a sepsis (clefyd meningococol) gan nad oes yr un brechlyn 100% yn effeithiol. Mae bacteria eraill hefyd yn gallu achosi'r afiechydon hyn, yn cynnwys clefyd meningococol grŵp B nad yw wedi'i gynnwys yn y brechlyn MenACWY.

## Beth yw arwyddion a symptomau'r clefyd meningococol?

### Gwyliwch am unrhyw un o'r symptomau hyn


Twymyn, dwylo a thraed oer


Chwydu


Cysglyd, anodd deffro


Dryswch a thymer flin


Poen difrifol yn y cyhyrau


Croen gwelw, blotiog. Smotiau neu frech (gweler y prawf gwydr)


Cur pen difrifol


Gwddf stiff


Ddim yn hoffi goleuadau llachar


Confylsiynau neu drawiadau

Ffynhonnell: © meningitisnow.org

## Gwnewch y prawf gwydr

Gall rhywun â sepsis ddatblygu brech 'pigiadau pin' bach a all droi'n gleisio porffor. Nid yw'r frech hon yn pylu dan bwysau. Gallwch wneud y prawf gwydr trwy bwyso ochr gwydr yfed yn erbyn y frech. Os and yw'r smotiau'n pylu dan bwysau, ceisiwch gymorth meddygol ar unwaith. Gall fod yn fwy anodd gweld y frech ar groen tywyll, ond gall fod yn weladwy mewn mannau mwy golau, yn enwedig gwadnau'r traed, cledrau'r dwylo, yr abdomen, neu y tu mewn i'r amrannau neu daflod y geg.



Ffynhonnell: © meningitisnow.org

Peidiwch byth ag aros nes y bydd brech yn ymddangos. Ceisiwch gymorth meddygol ar unwaith os yw plentyn neu unigolyn ifanc yn dangos y symptomau uchod, gan y gall y salwch ddatblygu'n gyflym iawn.

## Pecynnau cydsynio a gwybodaeth am y brechiad

Bydd **pecynnau cydsyniad ar gyfer disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid** yn cael eu rhoi i ysgolion uwchradd cyn y sesiwn brechu MenACWY a'r Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau yn yr ysgol. Gall y pecynnau fod ar bapur neu ar ffurf ddigidol.

**Mae pob pecyn cydsynio fel arfer yn cynnwys:**

- **Llythyr (neu e-bost), taflen a ffurflen gydsynio.** Mae'r llythyr a'r daflen yn rhoi gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid am y brechlyn a'i fanteision. Rhoddir gwybodaeth i alluogi cydsyniad ar sail gwybodaeth i bobl ifanc gael y brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a'r brechlyn MenACWY. Gofynnir i rai ysgolion anfon y rhain yn electronig.

- Mae'r daflen ar gael mewn fformatau hygyrch (yn cynnwys Print Bras, Hawdd ei Deall, Iaith Arwyddion Prydain a Sain fel arfer). Dylid cyfeirio rhieni/gwarcheidwaid at: **icc.gig.cymru/brechlynnau/adnoddau-hygyrch**

- **Mae angen ffurflen gydsynio wedi'i llenwi cyn rhoi brechiad.** Er ein bod yn argymell bod disgyblion yn cael **cydsyniad eu rhieni/gwarcheidwaid**, bydd rhai plant yn yr ysgol uwchradd yn gallu cydsynio'n gyfreithiol drostyn nhw'u hunain. Gall hyn gynnwys rhai plant sydd o dan 16 oed, ond dim ond os bydd yr unigolyn sy'n rhoi'r brechlyn yn eu hasesu fel rhai sy'n ddigon aeddfed i ddeall yn llawn yr hyn sy'n cael ei gynnig. Gelwir hyn yn 'gymhwysedd Gillick.'

- Pan fydd pobl ifanc yn rhoi eu cydsyniad eu hunain, mae'n dal yn well bod rhieni/gwarcheidwaid yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad. Os yw'r unigolyn ifanc yn cytuno, bydd y rhiant/gwarcheidwad yn cael gwybod bod y brechiad wedi'i roi.

- Gofynnir i ysgolion ganiatâu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio'u barn glinigol wrth ddefnyddio asesiad cymhwysedd Gillick fel ffordd o gael cydsyniad gan y bobl ifanc eu hunain lle bo'n briodol.

- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu bryderon gan rieni/warcheidwaid ynglŷn â hunan-gydsyniad a phroses asesu cymhwysedd Gillick at dimau nyrsio ysgol neu dimau imiwneiddio'r bwrdd iechyd.

- Chwiliwch am 'cydsyniad' yma i gael rhagor o wybodaeth: **111.wales.nhs.uk** (safle allanol), neu siaradwch â nyrs eich ysgol.





## Sut mae cydsyniad yn cael ei gasglu:

- Efallai y gofynnir i'ch ysgol gasglu **ffurflenni cydsynio papur wedi'u cwblhau** gan rieni/warcheidwaid ar ran y tîm nyrsio ysgol/y tîm imiwneiddio, ac i annog dychwelyd y ffurflenni cydsynio nad ydynt wedi cael eu dychwelyd.
- Anfonir ffurflenni cydsynio electronig, lle cânt eu defnyddio, yn uniongyrchol gan y rhiant/gwarcheidwad at y tîm nyrsio ysgol/imiwneiddio.
- Gall timau nyrsio/imiwneiddio ysgolion roi gwybod i ysgolion am bobl ifanc nad ydynt wedi dychwelyd eu ffurflenni cydsynio er mwyn iddynt gymryd camau dilynol
- Dylid **dychwelyd ffurflenni erbyn y dyddiad y cytunwyd arno** gyda'r nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio.

## Pwy fydd yn rhoi'r brechlyn?

Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan dîm nyrsio/imiwneiddio ysgolion y bwrdd iechyd lleol.

Byddant yn rhoi'r brechiad yn unol â safonau a osodwyd yn genedlaethol. Mae gan yr holl frechwyr gymwysterau a hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Maent hefyd wedi'u hyfforddi'n llawn i ateb cwestiynau gan ddisgyblion, athrawon a rhieni/gwarcheidwaid am y brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a'r brechlyn MenACWY, ynghyd â chwestiynau am frechlynnau eraill fel HPV, y ffliw ac MMR.

**Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod brechu yn atal hyd at 5 miliwn o farwolaethau o glefydau ledled y byd bob blwyddyn.**

## Brechiadau a fethwyd

Gall pobl ifanc a gollodd y cyfle i gael y brechiadau Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau neu MMR gael y rhain ar unrhyw oedran. Fodd bynnag, dim ond hyd at 25 oed y mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gymwys i gael y brechlynnau MenACWY a HPV. **Felly, dylid annog pobl ifanc i ddal i fyny â brechiadau a gollwyd cyn gynted â phosibl**. Bydd tîm nyrsio/imiwneiddio ysgolion y bwrdd iechyd lleol yn cynnig cyfleoedd i ddal i fyny naill ai yn yr ysgol, mewn clinig brechu cymunedol, neu drwy anfon llythyr neu gyfeirio'r unigolyn ifanc at ei feddyg teulu.

Os oes gan ddisgyblion neu eu rhieni/gwarcheidwaid gwestiynau neu bryderon ynghylch brechiadau rheolaidd a gollwyd, gallant siarad â thîm nyrsio/imiwneiddio ysgolion eu bwrdd iechyd lleol neu eu meddyg teulu.

**! Nid yw'n rhy hwyr i gael eich imiwneiddio'n llawn.**



# Sut gall eich ysgol gefnogi'r rhaglen frechu Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a MenACWY?

Mae'r berthynas rhwng ysgolion a thîm nyrsio/imiwneiddio ysgolion y GIG yn hanfodol ar gyfer diogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r berthynas sydd gan ysgolion â rhieni/gwarcheidwaid a phobl ifanc yn golygu bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan yn y rhaglen frechu.

**Mae cefnogaeth gan ysgolion i raglenni brechu Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a MenACWY yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr ac yn hanfodol. Defnyddiwch eich holl sianeli cyfathrebu i helpu i hyrwyddo manteisio ar frechlynnau a rhannwch y ddogfen friffio hon â'r staff yn eich ysgol.**



**Bydd y canlynol yn helpu i gefnogi'r sesiwn frechu ac yn lleihau tarfu yn yr ysgol ar y diwrnod:**

- Cyn diwrnod y brechiadau, siaradwch â'r tîm nyrsio/imiwneiddio ysgol i drefnu lleoliad addas a'u gofynion.
- Os gofynnir amdano, rhowch restr gyflawn o blant a phobl ifanc gymwys o fewn y garfan oedran, gan gynnwys manylion cyswllt eu rhieni/gwarcheidwaid.
- Mae'n bwysig rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid pa ddiwrnod y bydd brechiadau'n cael eu rhoi. Bydd y pecyn cydsynio yn cynnwys yr wybodaeth hon. Gwnewch yn siŵr bod pecynnau cydsyniad yr ysgol yn cael eu dosbarthu i rieni/gwarcheidwaid. Gellir anfon neges (e.e. e-bost neu neges destun) i'w hatgoffa o'r:

  – dyddiad(au) brechu; a'r

  – dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y ffurflen gydsynio.
- Rhowch **sicrwydd** i rieni/warcheidwaid ynghylch **effeithiolrwydd, diogelwch a phwysigrwydd** y brechiadau Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a MenACWY.
- Efallai y bydd gan ddisgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid gwestiynau am y brechlyn. Rhowch wybod iddyn nhw fod rhagor o wybodaeth ar gael o: **icc.gig.cymru/brechlyn3mewn1** a **icc.gig.cymru/brechlynMenACWY**
- Defnyddiwch gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol neu sianeli cyfathrebu'r ysgol i rannu cynnwys perthnasol sydd ar gael o **phw.brandkitapp.com**
- Siaradwch â'ch tîm nyrsio/imiwneiddio ysgol os oes gennych ymholiadau neu os ydych yn ymwybodol o unrhyw gamwybodaeth sy'n cael ei lledaenu am y brechiad.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau ar waith i gefnogi gweinyddu rhaglenni brechu yng Nghymru ac i hwyluso rhannu gwybodaeth am ddisgyblion at ddibenion brechiadau ar gyfer plant oedran ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar gael yn y ddogfen "Cynorthwyo'r gwaith o weinyddu a rheoli rhaglenni brechu plant a ddarperir mewn ysgolion" sydd ar gael o:

**icc.gig.cymru/brechlynnau/Plant-PoblIfanc**

## Gwybodaeth bellach am y Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a'r brechlyn MenACWY

- Mae diogelwch ac effeithiolrwydd y brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu Harddegau a'r brechlyn MenACWY wedi cael eu profi'n drylwyr mewn treialon clinigol.

- Fel yn achos pob meddyginiaeth, gall brechlynnau achosi sgil-effeithiau, ond ni fydd pawb yn eu profi. Mae'r rhan fwyaf o sgil-effeithiau yn ysgafn a byddant fel arfer yn gwella ar ôl diwrnod neu ddau. Y sgil-effaith mwyaf cyffredin yw braich boenus, chwyddedig, neu gochni lle rhoddwyd y pigiad. Mae sgil-effeithiau llai cyffredin yn cynnwys cur pen, cyfog a thwymyn. Mae sgil-effeithiau difrifol yn brin iawn.

- Mae diogelwch pob brechlyn yn parhau i gael ei fonitro gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn. Gall unrhyw un roi gwybod am achosion tybiedig o sgil-effeithiau gan frechlynnau a meddyginiaethau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn. Gellir gwneud hyn ar-lein yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol, Saesneg yn unig), drwy ffonio **0800 731 6789** (dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb i 5yh) neu drwy chwilio am MHRA Yellow Card yn Google Play neu yn Apple App Store.

## Gwybodaeth bellach am Lid yr Ymennydd

- Mae **Meningitis Research Foundation** (safle allanol - Saesneg yn unig) yn elusen flaenllaw yn y DU, Iwerddon ac yn rhyngwladol sy'n dod â phobl ac arbenigedd ynghyd i drechu llid yr ymennydd a septisemia. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o **meningitis.org** (safle allanol, Saesneg yn unig).

- Mae **Meningitis Now** yn elusen genedlaethol ar gyfer llid yr ymennydd sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o: **meningitisnow.org** (safle allanol, Saesneg yn unig).

### Diolch yn fawr

Mae cyflwyno rhaglenni brechu drwy ysgolion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad hawdd at frechlynnau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cynifer â phosib o bobl yn cael eu brechu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd i blant a phobl ifanc.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ysgolion i gynnal y sesiynau brechu hyn, ac am gyfathrebu â rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â phryd y bwriedir cynnal y sesiynau brechu HPV.

**Os oes gennych ymholiadau neu gwestiynau ynghylch cyflwyno'r rhaglen frechu Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Bobl Ifanc yn eu harddegau a MenACWY yn eich ysgol, cysylltwch â thîm nyrsio/imiwneiddio ysgol y bwrdd iechyd lleol. Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau i ysgolion, yn cynnwys adnoddau addysgol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol, ar gael o'r tudalen gwe Plant Oedran Ysgol a Phobl Ifanc.**

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i **icc.gig.cymru/brechlynnau**

Sganiwch fi i fynd i wefan plant a phobl ifanc oed ysgol

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Fersiwn 2 | Rhagfyr 2025
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Iechyd Cyhoeddus yr Alban ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)
ISBN 978-1-83766-769-7

## Further information about the Teenage 3-in-1 Booster and the MenACWY vaccine

- The safety and effectiveness of the Teenage 3-in-1 Booster and the MenACWY vaccine has been rigorously tested in clinical trials.
- Like all medicines, vaccines can cause side effects, but not everyone gets them. Most side effects are mild and may last a day or two. The most common side effect is a sore, swollen or red arm at the site of injection. Less common side effects are headaches, nausea and fever. Serious side effects are extremely rare.
- The safety of all vaccines continues to be monitored by the Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA) through the Yellow Card Scheme. Anybody can report suspected side effects of vaccines and medicines through the Yellow Card scheme. This can be done online at **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (external site), by calling **0800 731 6789** (Monday to Friday, 9am to 5pm) or search for MHRA Yellow Card in the Google Play or Apple App Store.

## Further information about Meningitis

- **Meningitis Research Foundation** is a leading UK, Irish, and international charity that brings together people and expertise to defeat meningitis and septicaemia. More information is available at **meningitis.org** (external site).
- **Meningitis Now** is a national meningitis charity based in the United Kingdom. More information is available at **meningitisnow.org** (external site).

### A note of thanks

Delivering immunisation programmes through schools is vital for ensuring children and young people have easy access to vaccines. This helps to achieve high uptake of vaccination and reduce inequalities in health for children and young people.

We are grateful for the support of schools in hosting these vaccination sessions, and for communicating to parents/guardians when the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY vaccination sessions are scheduled to take place.

**If you have any enquiries or questions regarding the delivery of the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY vaccination programme in your school, please direct these to the local health board school nursing/immunisation team. Further information and resources for schools, including educational resources aligned with the national curriculum, are available from the School Age Children and Young People webpage.**

The information in this leaflet is correct at the time of publication. For the most up-to-date information, please visit **phw.nhs.wales/vaccines**

Scan me to go to the school age children and young people webpage

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Version 2 | December 2025
© Public Health Wales NHS Trust (with acknowledgement to Public Health Scotland and UK Health Security Agency)
ISBN 978-1-83766-769-7

# How your school can support the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY vaccination programme

The relationship between schools and the school nursing/immunisation team is vital for protecting the health of future generations. Schools have an important role to play in promoting the uptake of the school aged immunisation programmes, because of the relationship they have with the parents/guardians and young people.

**Support from schools with the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY programmes is highly valued and essential. Please use all your communication channels to help promote uptake and share this briefing document with staff in your school.**



**The following will help to support the vaccination session and minimise disruption to the school on the day:**

- Ahead of the day of the vaccinations, talk to the school nursing/immunisation team to arrange a suitable location and requirements.
- If requested, provide a complete list of eligible children and young people within the age cohort, including their parent/guardian contact details.
- It's important to let parents/guardians know which day vaccinations will take place. The consent pack should contain this information. Please ensure the school consent packs are distributed to parents/guardians. Communication (e.g. an email or a text) can be sent to parents to remind them of the:
  - vaccination date(s); and
  - date they need to return the consent form by.
- Please **reassure** parents/guardians of the **effectiveness, safety and importance** of the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY vaccinations.
- Pupils and their parents/guardians may have questions about the vaccines. Let them know that further information is available at **phw.nhs.wales/3in1vaccine** and **phw.nhs.wales/MenACWYvaccine**
- Use school social media accounts or school communication channels to share relevant content.
- Speak to your school nursing/immunisation team if you have any queries or are aware of any misinformation or disinformation being circulated about the vaccination.

Legislation and guidance are in place to support the administration of vaccination programmes in Wales and to facilitate the sharing of pupil information for the purposes of vaccinations for school aged children.

Further information from Welsh Government is available in "Supporting the administration and management of childhood vaccination programmes delivered in schools" available at

**phw.nhs.wales/vaccines/Children-YoungPeople**



## How consent is collected:

- Your school may be asked to collect **completed paper consent forms** from parents/guardians on behalf of the school nursing/immunisation team, and to follow up on non-returned consent forms.
- Electronic consent forms, where used, are sent directly from the parent/guardian to the school nursing/immunisation team.
- School nursing/immunisation teams may inform schools of young people who have not returned consent forms for further follow up.
- Forms should be **returned by the deadline agreed** with the school nurse or immunisation team.

## Who will give the vaccine?

The programme will be delivered by the local health board school nursing/immunisation team.

They will administer the vaccinations according to nationally set standards. All vaccinators have appropriate qualifications and training, including safeguarding training. They are also fully trained to answer any questions from pupils, teachers and parents/guardians about the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY vaccines, along with questions about other vaccines such as HPV, flu, and MMR vaccinations.

**The World Health Organization estimates that vaccination prevents up to 5 million deaths globally every year from diseases.**

## Missed vaccinations

Young people who missed their Teenage 3-in-1 Booster or MMR vaccinations can receive these at any age, however most young people are only eligible for MenACWY and HPV vaccines up to the age of 25. **Therefore, young people should be encouraged to catch up with any missed vaccinations as soon as possible**. The local health board school nursing/immunisation team will provide opportunities for catch-up either in school, a community vaccination clinic, or by providing a letter or signposting the young person to their GP.

If pupils or their parents/guardians, have any questions or concerns about missed routine vaccinations, they can speak to their local health board school nursing/immunisation team or GP.

**! It's not too late to get up to date.**



## Do the glass test

Someone with sepsis may develop a rash of tiny 'pin pricks' which can turn into purple bruising. This rash does not fade under pressure. You can do the glass test by pressing the side of a drinking glass against the rash. If the spots don't fade under pressure, get medical help immediately. The rash can be more difficult to see on dark skin, but may be visible in paler areas, especially the soles of the feet, the palms of the hands, the abdomen or on the inside of the eyelids or roof of the mouth.



Source: © meningitisnow.org

Never wait for a rash. If a child or young person is showing the above symptoms, get medical help immediately as the illness can progress very quickly.

## Consent packs and vaccination information

**Consent packs for pupils and their parents/ guardians** will be supplied to secondary schools before the scheduled Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY school vaccination session. This may be paper based or in a digital format.

**Each consent pack usually contains:**

- **A letter (or email), leaflet and consent form.** The letter and leaflet give pupils and parents/ guardians an understanding of the vaccines and their benefits. Information is provided to enable informed consent for young people to receive the Teenage 3-in-1 Booster and MenACWY vaccines. Some schools will be asked to send these electronically.

- The leaflets are also available in **accessible formats** (including Large Print, Easy Read, British Sign Language and Audio). Parents/guardians should be directed to: **phw.nhs.wales/vaccines/ accessible-information**

- **A completed consent form is required before a vaccination is given.** While we recommend that pupils get **agreement from their parents/ guardians**, some children in secondary school will be able to legally consent for themselves. This may include some children who are under 16, but only if they are assessed by the person giving the vaccine as being mature enough to fully understand what is being offered. This is called 'Gillick competence.'

- Where young people give their own consent, it is still preferred that parents/guardians are involved in the decision making. If the young person is in agreement, the parent/guardian will be informed that the vaccination has been given.

- Schools are asked to allow health professionals to use their clinical judgement in the application of Gillick competency assessment as a means of obtaining self-consent from young people where appropriate.

- Any queries or concerns from parents/guardians about self-consent and the process of Gillick competency assessment should be directed to health board school nursing or immunisation teams.

- For more information, search consent here: **111.wales.nhs.uk** (external site), or speak to your school nurse.



Since August 2015, teenagers have been offered the MenACWY vaccine to improve protection against meningococcal disease. This vaccine protects against four meningococcal bacteria groups, A, C, W and Y. This has led to a large reduction in cases of MenC disease in all age groups.

As a result of the successful reduction of MenC disease and availability of appropriate vaccines, the dose of MenC vaccination offered to babies at 1 year old was discontinued in July 2025. **The MenACWY vaccine given at 13 to 14 years of age is therefore now the only MenC containing vaccine in the routine immunisation schedule for Wales, and uptake is crucial to prevent future outbreaks and illness.**


Young people are at higher risk of coming into contact with the meningococcal bacteria and getting meningococcal disease, so they need to get vaccinated to protect themselves. Vaccination also reduces the risk of young people carrying the bacteria and so protects other people around them. They will need this vaccine even if they have previously received the MenC vaccine.


The MenACWY vaccination is normally given as an injection in the top of the arm.

A full list of the vaccine ingredients and possible side effects are available at **medicines.org.uk/emc** (external site). For information about the MenACWY vaccines enter 'Men A, C, W, Y' into the search box.

More information about the MenACWY vaccine is available at **phw.nhs.wales/MenACWYvaccine**

On this webpage, you can look at the "What is the MenACWY vaccine?" animation and comic.





It's important to know the signs and symptoms of meningitis and sepsis (meningococcal disease) as no vaccine is 100% effective. There are also other bacteria that can cause these illnesses, including meningococcal group B disease that is not covered by the MenACWY vaccine.

## What are the signs and symptoms of meningococcal disease?

### Look out for any of these symptoms




Source: © meningitisnow.org

# About the Teenage 3-in-1 Booster and the MenACWY vaccine

## Teenage 3-in-1 Booster vaccine (this is sometimes referred to as Td/IPV):

### T: tetanus

Tetanus is a disease affecting the nervous system. It can cause muscle spasms, breathing problems and can kill. Tetanus is caused when bacteria found in soil and manure gets into the body through open wounds.

### d: diphtheria

Diphtheria is a highly contagious bacterial infection that usually begins with a sore throat and can quickly cause breathing problems. It can damage the heart and nervous system and, in severe cases, can kill.

### IPV: inactivated polio vaccine

Polio (also known as poliomyelitis) is a virus that attacks the nervous system and can cause permanent paralysis of the muscles. If it affects the chest muscles or the brain, polio can kill.

**Polio was once common in the UK and throughout the world. It is now rare due to the success of the vaccination programme.**

The Teenage 3-in-1 Booster vaccine is **highly effective** at strengthening (boosting) protection from immunisations that were given to children when they were younger.

It completes a five dose course that aims to provide long-term protection against tetanus, diphtheria, and polio into adulthood:


- the first three doses given as a baby, at 8 weeks, 12 weeks and 16 weeks
- the fourth dose given at 3 years and 4 months (for children born before 1 July 2025)
- the fifth dose given at age 13 to 14 years (school year 9)


The Teenage 3-in-1 Booster is a **very safe vaccine** which is given in the top part of the arm.

A full list of the vaccine ingredients and possible side effects are available at **medicines.org.uk/emc** (external site). For information about the 3-in-1 vaccine enter 'Revaxis' into the search box.

More information about the Teenage 3-in-1 Booster is available at **phw.nhswales/3in1vaccine**

On this webpage, you can look at the "What is the Teenage 3-in-1 Booster vaccine?" animation and comic.




## MenACWY vaccine

Meningococcal disease is caused by several groups of meningococcal bacteria, the most common of which are B, C, W, and Y. Meningococcal bacteria can cause meningitis (inflammation of the lining of the brain and spinal cord) and sepsis (a whole body response to infection causing widespread inflammation and organ damage). The same bacteria that cause these serious illnesses are commonly carried in the back of the nose and throat, especially in older teenagers and young adults, without any symptoms.

Although rare, meningococcal disease is very serious and needs urgent treatment in hospital. It can lead to life-changing disabilities such as amputations, hearing loss, brain damage and scars. If it is not diagnosed early, it can even be fatal.

Vaccination against meningococcal group C (MenC) was introduced into the routine vaccination schedule in Wales in 1999.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# MenACWY and Teenage 3-in-1 Booster Vaccination Programme





## Briefing document for head teachers and school staff

Please ensure that all school staff who need to know about the programme have access to this information.

**The Teenage 3-in-1 Booster vaccine protects against three serious diseases – tetanus, diphtheria and polio**

**The MenACWY vaccine protects against meningococcal groups A, C, W and Y, which can cause meningitis and sepsis**

## Eligibility for the MenACWY and Teenage 3-in-1 Booster vaccinations

The MenACWY and Teenage 3-in-1 Booster vaccines are offered **free to all young people aged 13 to 14 years** (school year 9), and older pupils who have previously missed these vaccines.

The Teenage 3-in-1 Booster vaccine is routinely given at the same time as the MenACWY vaccine as part of the national immunisation programme. Most young people will be offered both vaccines together in school, but those living in the Cardiff and Vale University Health Board area will be offered both vaccines by their GP surgery at around the same age.

## 3 reasons for having the Teenage 3-in-1 Booster and the MenACWY vaccine

1. The Teenage 3-in-1 Booster vaccine strengthens and provides longer term protection against tetanus, diphtheria and polio into adulthood.

2. Although rare, meningococcal disease is very serious and needs urgent treatment in hospital. It can even be fatal. Everybody is at risk from meningococcal disease, but **teenagers and young adults** are the **second most at risk group, and are most likely to carry the meningococcal germ.**

3. The Teenage 3-in-1 Booster and the MenACWY vaccines are **safe, highly effective and easy** to get.

Mae'r gwybodaeth hon ar gael yn Gymraeg.
This information is available in Welsh.